AQA CCEA OCR Pearson CBAC

# Paratoi ar gyfer amhariad ar arholiadau

Mae'r ddogfen hon yn seiliedig ar y canllawiau sy'n rhan o Gynllun Wrth Gefn y CGC, sydd i'w gweld ar wefan y CGC:
jcq.org.uk/exams-office/other-documents/

**Rhaid** i bob canolfan gael cynllun arholiadau wrth gefn ysgrifenedig sydd yn ymdrin â holl agweddau'r drefn weinyddu arholiadau. Bydd hyn yn caniatáu i aelodau'r uwch dîm arwain weithredu ar unwaith os bydd argyfwng neu lle mae pennaeth y ganolfan, swyddog arholiadau neu'r Cydlynydd AAA yn absennol ar gam critigol yn y cylch arholiadau. Dylai'r cynllun arholiadau wrth gefn atgyfnerthu'r gweithdrefnau i'w dilyn os nad yw'r ganolfan ar gael ar gyfer arholiadau oherwydd argyfwng heb ei ragweld fel toriad yn y pŵer.

**Rhaid** i holl staff perthnasol y ganolfan fod yn gyfarwydd â'r cynllun arholiadau wrth gefn. Dylid ystyried sut bydd y trefniadau hyn yn cael eu cyfleu i ymgeiswyr, rhieni a staff pe bai unrhyw beth yn amharu ar arholiadau.

Gall yr amhariad fod ar sail tri pheth, ac amlinellir y rhain isod.

## Efallai na fydd ymgeiswyr yn gallu sefyll arholiadau - canolfannau yn parhau ar agor

Dylai cynlluniau wrth gefn canolfannau ganolbwyntio ar ddewisiadau sy'n golygu bod modd i ymgeiswyr sefyll eu harholiadau. Yn rhan o'r paratoadau hyn, dylai canolfannau ystyried y canllawiau a ddarperir yn nogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau:*
https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

- ystyried symud amseroedd cychwyn yr arholiad ar gyfer pob ymgeisydd (gweler **adran 6.2** dogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau)*

- bod yn ymwybodol o'r rheolau'n ymwneud â'r sawl sy'n cyrraedd yn hwyr iawn (gweler adran 21 dogfen y CGC Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau).

Lle bynnag y bo'n bosibl, sefyll yr arholiad sydd orau i'r ymgeiswyr bob amser. Fodd bynnag, mae'n bosibl defnyddio ystyriaeth arbennig lle nad yw ymgeisydd yn gallu sefyll yr arholiad (gweler **Pennod 4** dogfen y CGC *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig:*
https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

Dylid cysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol os oes angen cefnogaeth neu arweiniad ychwanegol pe byddai amhariad ar arholiadau.

## Efallai na fydd canolfannau yn gallu agor ar gyfer arholiadau

Fel uchod, mae'n **rhaid** i unrhyw gynlluniau wrth gefn sydd gan ganolfannau ganolbwyntio ar sicrhau bod modd i ymgeiswyr sefyll eu harholiadau os oes perygl na fydd yn bosibl i'r ganolfan agor fel arfer.

Pennaeth y ganolfan sy'n penderfynu a yw'n ddiogel i ganolfan agor. Dylai gymryd cyngor neu ddilyn cyfarwyddiadau gan asiantaethau lleol neu genedlaethol perthnasol.

Mae cynllun wrth gefn system arholiadau'r tair gwlad yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn y dylai canolfannau ei wneud os bydd amhariad mawr yn digwydd ar arholiadau neu asesiadau eraill. www.gov.uk/government/publications/exam-system-contingency-plan-england-wales-and-northern-ireland/what-schools-and-colleges-should-do-if-exams-or-other-assessments-are-seriously-disrupted

Mae'n bosibl cael ystyriaeth arbennig drwy absenoldeb am resymau derbyniol hefyd os bydd pob llwybr arall wedi'i ystyried a'r ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf perthnasol.

Dylid cysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol os oes angen cefnogaeth neu arweiniad ychwanegol pe byddai amhariad ar arholiadau.

## Oedi yn y trefniadau casglu ar gyfer sgriptiau arholiad wedi'u cwblhau

Mewn achosion lle mae arholiadau'n rhan o'r gwasanaeth 'labeli melyn' cenedlaethol neu lle mae cyrff dyfarnu'n trefnu casglu'r deunyddiau, dylai canolfannau gysylltu â'r cyrff dyfarnu perthnasol am gyngor a chyfarwyddiadau.

Mewn achosion lle mae'r canolfannau yn gwneud eu trefniadau casglu eu hunain, dylent ymchwilio i ba ddewisiadau eraill sydd ar gael sy'n cydymffurfio â dogfen *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau* y CGC.

**Rhaid** cadw sgriptiau yn yr ystafell ddiogel bob amser tan y bydd hi mor agos â phosibl at yr amser casglu. **Ni ddylid** gadael pecynnau sgriptiau heb neb yn bresennol yn y man casglu.

## Crynodeb o gyfrifoldebau'r ganolfan a'r corff dyfarnu

Cyfrifoldeb y canolfannau yw:

- paratoi cynlluniau i'w defnyddio mewn ymateb i unrhyw amhariad ar arholiadau yn rhan o gynllun wrth gefn arholiad ysgrifenedig
- penderfynu p'un a yw'n bosibl i ganolfan agor ar gyfer arholiadau yn ôl yr amserlen a hysbysu'r cyrff dyfarnu perthnasol os nad yw'r ganolfan yn gallu agor
- gweithredu trefniadau amgen ar gyfer cynnal arholiadau, fel rhan o'u cynllun wrth gefn arholiad ysgrifenedig, os na all y ganolfan agor ar gyfer arholiadau.
- hysbysu Gwasanaeth Arolygu Canolfannau CGC o drefniant safle amgen drwy gyflwyno ffurflen Safle Arall CGC ar-lein, gan ddefnyddio Porth Gweidyddu Canolfannau. Gellir cael mynediad at y Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP) gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu
- barnu p'un a yw ymgeiswyr yn bodloni'r gofynion i dderbyn ystyriaeth arbennig oherwydd unrhyw amhariad a chyflwyno'r ceisiadau ~~hyn~~ i'r cyrff dyfarnu perthnasol
- asesu eu hamgylchiadau a chysylltu â'r cyrff dyfarnu os bydd amhariad yn digwydd gyda'r trefniadau casglu ar gyfer sgriptiau arholiad wedi'u cwblhau.

Cyfrifoldeb y cyrff dyfarnu yw:

- sicrhau bod canolfannau'n derbyn deunyddiau arholiad ar gyfer arholiadau wedi'u hamserlennu
- cynghori canolfannau ynghylch trefniadau eraill posibl a gwrthod/cymeradwyo cynigion ar gyfer trefniadau arholiad eraill posibl
- gwrthod/cymeradwyo ceisiadau am ystyriaeth arbennig.

## Manylion cyswllt y cyrff dyfarnu

Am ragor o gyngor cysylltwch â'r corff dyfarnu perthnasol:

- AQA 0800 197 7162
  eos@aqa.org.uk
- CCEA 028 9026 1212, 028 9026 1293, 028 9026 1425
  centresupport@ccea.org.uk
- OCR 01223 553998
  support@ocr.org.uk
- Pearson 0344 463 2535
- CBAC 02920 265 077
  arholiadau@cbac.co.uk

©CGC 2023 – Yn weithredol o 1 Medi 2023